



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystwyth
Agile scoping report

Cyffredinolïaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd: adolygiad cwmpasu ystwyth o'r llenyddiaeth eilaidd

Lluniwyd gan:

Jordan Everitt, Uwch Ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Hannah Shaw, Prif Ddadansoddwr Tystiolaeth a Gwybodaeth, Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Cyflwyniad	2
Amcanion	3
Y Negeseuon Allweddol	3
Canfyddiadau	4
Opsiynau ar gyfer gwaith pellach	7
Dulliau	7
Cyfeiriadau	10
Atodiad A: Dogfen dechnegol	11
Atodiad B: Atodiad Chwiliadau	14
Atodiad C: Echdynnu data	18



Cyflwyniad

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Data, Gwybodaeth ac Ymchwil i Wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgymryd â chwiliad o'r llenyddiaeth eilaidd i ganfod pa dystiolaeth sy'n bodoli ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau cyffredinolïaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd. Yn ystod cyfarfod i drafod anghenion y rhanddeiliaid ar gyfer yr adolygiad cwmpasu hwn, dim ond llenyddiaeth ar canlyniadau iechyd y cyhoedd a newid ymddygiad mewn poblogaethau o oedolion oedd o ddiddordeb, felly ni chafodd tystiolaeth ar ganlyniadau a grwpiau poblogaeth eraill eu hystyried i'w cynnwys.

Cafodd cyffredinolïaeth gymesur ei fathu mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr, *Fair Society, Healthy Lives* (Adolygiad Marmot) (Marmot et al, 2010). Mae'n hybu darpariaeth gwasanaethau cyffredinol sy'n cael eu darparu ar raddfa a dwyster sy'n gymesur â'r angen. Mae'n tynnu gwahaniaeth pwysig rhwng ymyriadau cyffredinol a thargeddu at gymunedau difreintiedig oherwydd ei fod yn cydnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau cyfoeth-iechyd sy'n bodoli ar draws yr holl raddiant cymdeithasol (Benach et al, 2012). Gan hynny, nod cyffredinolïaeth gymesur yw gwella iechyd y boblogaeth yn ogystal â gwastatáu graddiannau cymdeithasol mewn iechyd (Benach et al, 2012).

Nid yw cyffredinolïaeth gymesur ynddi ei hun yn ymyriad, mae'n egwyddor sy'n seiliedig ar degwch cymdeithasol a thegwch iechyd sy'n anelu at leihau anghydraddoldebau iechyd; felly, nid yw'r adolygiad cwmpasu hwn yn ceisio asesu effeithiolrwydd cyffredinolïaeth gymesur. Mae'r adolygiad cwmpasu hwn yn ceisio nodi astudiaethau o ymyriadau sydd wedi cymhwyso egwyddor cyffredinolïaeth gymesur, er mwyn deall ble a sut mae cyffredinolïaeth gymesur wedi'i deddfu, a pha effaith y mae ymyriadau o'r fath wedi'i chael ar leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion.

Canfyddiadau a chasgliadau'r awduron gwreiddiol sydd wedi'u cynnwys yma, nid dehongliad gan y Gwasanaeth Tystiolaeth. Mae'r ffactorau sy'n berthnasol er mwyn ateb y cwestiwn ymchwil a welwyd yn yr adolygiadau systematig a gynhwyswyd (a rhai sylfaenol os yn briodol) wedi'u codi o'r adolygiadau hynny ac wedi'u crynhoi'n fyr yn yr adroddiad hwn. Os yw ffactor penodol o ddiddordeb, mae'n ddoeth darllen y ffynonellau y cawsant eu codi ohonyn nhw yn fanylach. Os byddwch yn defnyddio unrhyw adolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cwmpas hwn er mwyn llywio polisïau, mae'n bwysig ystyried a ydy'r canfyddiadau'n gallu cael eu cyffredinoli i'ch cyd-destun chi ai peidio.

Mae'r chwiliad a wnaed ar gyfer y cwmpas hwn yn annhebygol o fod wedi nodi'r holl dystiolaeth ynglŷn â'r pwnc hwn, gan nad oedd y chwiliadau yn hollgynhwysfawr.



Amcanion

Cynnal adolygiad cwmpasu i nodi tystiolaeth eilaidd ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion

Ein nod oedd mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- Sut a ble mae cyffredinoliaeth gymesur wedi'i chymhwyso i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion?
- Beth yw effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion?

Y Negeseuon Allweddol

- Ni nododd y chwiliadau unrhyw ymchwil eilaidd gadarn a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ymyriadau sy'n cymhwyso cyffredinoliaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion.
- Nodwyd un adolygiad cwmpasu a oedd yn mapio'r llenyddiaeth sy'n edrych ar gyffredinoliaeth gymesur, gyda ffocws ar heriau damcaniaethol ac ymarferol.
- Nododd yr adolygiad cwmpasu uchod fod ymyriadau cyffredinoliaeth gymesur yn brin, a bod yna heriau allweddol o ran ei dehongli a'i chymhwyso.
- Awgrymwyd hefyd fod yna lawer o heriau methodolegol a moesegol o ran cychwyn a gwerthuso ymyriadau cyffredinoliaeth gymesur, gan gynnwys sut i gymhwyso cymesuredd, ac adnabod anghenion.
- Er bod ymchwil sylfaenol wedi'i chyhoeddi sy'n canolbwyntio ar gyffredinoliaeth gymesur, mae'n ymddangos mai ychydig yn unig o ymchwil sylfaenol sy'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur.
- Dim ond termau allweddol ar gyfer cyffredinoliaeth gymesur a ddefnyddiwyd er mwyn chwilio'r llenyddiaeth yn yr adolygiad cwmpasu hwn, felly mae'n debygol iawn bod ymchwil berthnasol sy'n cymhwyso'r egwyddor heb gyfeirio'n uniongyrchol at gyffredinoliaeth gymesur wedi'i cholli.



Canfyddiadau

Darganfu'r chwiliad llenyddiaeth 186 o gyfeiriadau unigryw, bob un wedi'i sgrinio o ran perthnasedd y teitl a'r crynodeb. O'r 186, ystyriwyd bod 13 o erthyglau'n ymchwil eilaidd a allai fod yn berthnasol a chafodd y rhain eu sgrinio ar lefel y testun llawn. Nid oedd yr un ohonynt yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cymhwyso cyffredinolïaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion, felly ni nodwyd unrhyw erthyglau a atebodd y cwestiwn ymchwil yn uniongyrchol. Nodwyd un adolygiad cwmpasu ar gyffredinolïaeth gymesur yn y chwiliad, ond roedd hwnnw'n ymwneud â heriau damcaniaethol ac ymarferol cymhwyso a gwerthuso cyffredinolïaeth gymesur, yn hytrach nag effeithiolrwydd yr ymyriad (Francis-Oliviero et al, 2020). Cafodd ei gyhoeddi yn 2020, ac roedd yn cynnwys astudiaethau a oedd yn diffinio, yn dadansoddi ac yn disgrifio cymwysiadau cyffredinolïaeth gymesur yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd neu bolisi cymdeithasol. Roedd yn cynnwys 55 o astudiaethau a gyhoeddwyd rhwng 1991 a 2020. Roedd y mwyafrif o'r astudiaethau a gynhwyswyd yn dod o wledydd yn Ewrop (39), yn ogystal â Gogledd a De America (9), Awstralia (4), India (1), Indonesia (1), a Japan (1). Ni chynhaliodd yr awduron werthusiad beirniadol o'r astudiaethau a gynhwyswyd, ond nid yw hynny'n ddisgwyliedig mewn adolygiadau cwmpasu, ac nid yw'n peri pryder yng nghyd-destun eu cwestiwn ymchwil gan eu bod yn canolbwyntio'n bennaf ar astudiaethau o heriau ymarferol a damcaniaethol, nid effeithiolrwydd.

Er bod rhai astudiaethau a werthusodd effeithiolrwydd ymyriadau wedi'u cynnwys yn yr adolygiad cwmpasu, ni wnaeth yr un o'r astudiaethau hyn ateb ein cwestiwn ymchwil ni yn uniongyrchol, gan nad oedd yr un ohonynt yn gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer canlyniadau iechyd y cyhoedd neu newid ymddygiad mewn oedolion. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau o ymyriadau a gynhwyswyd yn ymwneud â gwasanaethau plant a theuluoedd, nad oedd o ddiddordeb i'r rhanddeiliad.

Daeth yr awduron i'r casgliad mai anaml y cynhaliwyd ymyriadau sy'n seiliedig ar gyffredinolïaeth gymesur a'u bod yn cael eu cyfyngu gan ffyrdd gwahanol o'u dehongli a'u cymhwyso. Er enghraifft, a ddylai ymyriadau fod yr un fath ond gyda lefelau gwahanol o ddwysedd, neu'n wahanol ar gyfer y gwahanol grwpiau targed? Gan fod cyffredinolïaeth gymesur yn egwyddor ac nid yn ymyriad ynddi ei hun, fe allai gael ei dehongli a'i chymhwyso'r ddwy ffordd, ond gallai hyn ei gwneud yn anodd inni werthuso effeithiolrwydd ar draws astudiaethau gwahanol. Amlygwyd heriau moesegol hefyd, megis y stigmatiddio sy'n deillio o dargedu'r poblogaethau mwyaf anghenus, er bod hyn wedi'i amlygu mewn perthynas â gwasanaethau i famau newydd. Mae heriau methodolegol a heriau gwerthuso eraill yn bodoli hefyd, megis sut mae angen yn cael ei nodi, sut y pennir cymesuredd, a mesur gostyngiadau yng ngraddiannau cymdeithasol iechyd.



Oherwydd prinder yr ymchwil eilaidd, cafodd ymchwil sylfaenol a nodwyd yn y chwiliad llenyddiaeth ei sgrinio hefyd o ran ei pherthnasedd. Cafodd pedwar cyfeiriad eu sgrinio ar lefel y testun llawn ac roedd tri yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys. Methodd un â bodloni'r meini prawf gan nad oedd yn ymyriad a oedd yn cymhwyso cyffredinolïaeth gymesur. Yn y Deyrnas Unedig y cafodd y tair astudiaeth a gynhwyswyd eu cynnal.

Gwerthusodd un astudiaeth effaith rhaglen a oedd yn cynnig mynediad cyffredinol am ddim i ddosbarthiadau ymarfer corff y tu allan i oriau brig (nofio neu gampfa yn bennaf) i bawb ledled dinas Leeds (Candio et al, 2022b). Roedd yr ymyriad yn ddi-dâl i bawb ond roedd yn cael ei ddarparu yn y 17 o ganolfannau hamdden dan reolaeth Cyngor y Ddinas yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, felly roedd yr awduron o'r farn bod hwn yn ymyriad cyffredinolïaeth gymesur. Nododd y canlyniadau nad oedd yna gysylltiad arwyddocaol rhwng mynegeion amddifadedd ar lefel y gymdogaeth a chymryd rhan yn y sesiynau ymarfer corff, ond roedd cyfranogwyr yn yr 20% mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan dros amser (HR 0.93, 95% CI 0.89–0.97, $p = 0.001$). Dywedodd awduron yr astudiaeth sylfaenol fod y canfyddiadau'n awgrymu ei bod yn bosibl na fydd dosbarthiadau ymarfer corff di-dâl cyffredinol yn effeithiol o ran cynyddu a chynnal lefelau uwch o weithgarwch corfforol mewn oedolion anweithgar. Yn ychwanegol, ni welwyd cynnydd o ran cymryd rhan mewn dosbarthiadau ymarfer corff ymysg y grŵp difreintiedig, er gwaethaf y ffaith bod y dosbarthiadau wedi'u trefnu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Amlygodd awduron yr astudiaeth sylfaenol gyfyngiad allweddol yn eu hastudiaeth, sef defnyddio'r mynegai cyfunol o amddifadedd lluosog, sy'n fesur o amddifadedd ardal leol, ac felly ni allent ganfod gwahaniaethau yn y canlyniadau o ran amddifadedd ar lefel yr unigolyn. Dyma enghraifft o heriau ymarferol gweithredu a gwerthuso ymyriadau sy'n cymhwyso cyffredinolïaeth gymesur a amlygwyd yn yr adolygiad cwmpasu gan Francis Oliviero et al (2020). Mae datblygu a thargedu ymyriadau sy'n seiliedig ar fynegeion amddifadedd ardal leol yn debygol o olygu y gallai trigolion sy'n fwy cyfoethog yn sosio-economaidd ac sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ddefnyddio ac elwa'n anghymesur ar y dwysedd ymyriadau uwch a ddarperir yn yr ardal honno. Mae hyn yn golygu y gall eu hamlygiad nhw i ymyriadau fod yn fwy na'u hangen, ac i'r gwrthwyneb ar gyfer trigolion sy'n fwy difreintiedig yn sosio-economaidd ac sy'n byw mewn ardaloedd lleol cyfoethocach. Mae seilio'r penderfyniadau hyn ar fynegeion amddifadedd ardal yn cyfyngu ar i ba raddau y gellir adnabod gwahaniaethau yn y canlyniadau ar draws amddifadedd ar lefel yr unigolyn. Yn ychwanegol, ar lefel yr unigolyn neu'r aelwyd, mae'n bosibl y gallai hyn ehangu anghydraddoldebau iechyd.

Un cyfyngiad ychwanegol a amlygwyd yw mai dim ond data i adnabod cyfranogwyr yn yr 20% mwyaf difreintiedig, a'r 80% lleiaf difreintiedig, oedd gan yr awduron ac felly nid oedd ganddynt ddata i adnabod gwahaniaethau ar draws y graddiant cymdeithasol cyfan. Data cyfyngedig yn unig oedd gan yr awduron hefyd er mwyn rheoli ar gyfer ffactorau dryslyd a allai fod wedi dylanwadu ar y canlyniadau, megis



lefelau gweithgarwch yn y gwaith, newidiadau ymddygiad eraill yn gysylltiedig ag iechyd ac adleoli i ddinas arall.

Cafodd erthygl yn dadansoddi costau yn yr astudiaeth uchod o fynediad di-dâl cyffredinol i ddosbarthiadau ymarfer corff y tu allan i oriau brig ei nodi yn y chwiliad hefyd (Candio et al, 2020a). Nid yw'n darparu data ychwanegol am effeithiolrwydd, ond mae canlyniadau'r astudiaeth yn awgrymu bod yr ymyriad yn debygol iawn o fod yn gost-effeithiol o dan ragdybiaethau ynglŷn â'r achos sylfaenol ac yn awgrymu bod manteision net gweithredu yn cynyddu dros amser. Nododd y canlyniadau fod gan yr ymyriad gost gynyddrannol o £555 am bob blwyddyn o fywyd wedi'i addasu yn ôl ansawdd, a budd ariannol cynyddrannol net o £174 ar gyfartaledd. Serch hynny, dywedodd yr awduron na ellid dod i gasgliad pendant oherwydd nifer o gyfyngiadau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys dyluniad yr astudiaeth, wedi'i seilio ar arsylwi ôl-weithredol h.y. y diffyg arbrofi, pa mor gynrychioliadol oedd y sampl a ddarparodd yr holl ddata ar ganlyniadau, a chanlyniadau newid ymddygiad hunan-gofnodedig.

Nododd y chwiliad hefyd led-arbrawf mewn rhaglen adnewyddu cymdogaethau yn Glasgow (Egan et al, 2016). Y nod oedd profi a oedd cyllid adnewyddu trefol a ddyrannwyd yn ôl anghenion yn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Dywedodd yr awduron nad yw'r ymyriad yn union un gyffredinoliaeth gymesur, gan mai dim ond mewn cymunedau difreintiedig y cafodd ei roi ar waith, ond roedd wedi'i lywio gan egwyddor cyffredinoliaeth gymesur. Roedd y garfan yn cynnwys 1006 o gyfranogwyr mewn 14 o ardaloedd dan anfoneisio gwahanol, a chasglwyd data i nodi newidiadau yn iechyd y cyfranogwyr rhwng 2006 a 2011. Cafodd cymdogaethau eu grwpio yn ôl y rhai a gafodd lefelau buddsoddiad wedi'u categorio fel "uwch", "is" a "chanolig", ac ar y cyfan roedd gan yr ardaloedd a gafodd y buddsoddiad mwyaf iechyd sylfaenol, incwm, a marcwyr anfantais gymdeithasol gwaeth. Ar ôl pum mlynedd, o'u cymharu â'r rhai yn yr ardaloedd buddsoddi is, roedd gan gyfranogwyr yn yr ardaloedd buddsoddi uwch welliannau sylweddol fwy mewn iechyd meddwl ($b = 4.26$; 95%CI 0.29, 8.22; $P = 0.036$), a gostyngodd briwiau iechyd corfforol lai ($b = 3.86$; 95%CI 1.96, 5.76; $P < 0.001$). Nid oedd y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd canolig eu buddsoddiad yn arwyddocaol.

Mae cyfyngiadau'r astudiaeth yn cynnwys defnyddio mynegeion amddifadedd ar lefel yr ardal, nid yr unigolyn neu'r aelwyd, a thuedd bosibl yn y dewis gan mai cyfradd ymateb o 45-50% yn unig a gafwyd. Daeth yr awduron i'r casgliad hefyd y gallai'r dull a ddefnyddiwyd i gategoreiddio'r ardaloedd fesul grŵp buddsoddi, gan ddefnyddio lefel agoredig fesul ardal astudiaeth, fod wedi'i wneud yn wahanol hefyd, ac mae'n debygol y gallai hynny arwain at ganfyddiadau gwahanol. Mae'n bwysig ystyried nad oedd awduron yr astudiaeth eu hunain o'r farn bod hwn yn ymyriad cyffredinoliaeth gymesur wirioneddol.

Roedd peth ymchwil sylfaenol a nodwyd yn y chwiliad llenyddiaeth yn canolbwyntio ar wasanaethau plant a theuluoedd, ond chafodd yr astudiaethau hyn mo'u sgrinio



na'u hymchwilio'n fanwl, ac nid ydynt wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn, gan mai oedolion yn unig oedd y grŵp poblogaeth a oedd o ddiddordeb i'r rhanddeiliad.

Sylwch, oni nodir yn wahanol, nid oes arfarniad ansawdd wedi'i gynnal felly ni all y Gwasanaeth Tystiolaeth gyflwyno sylwadau ar ansawdd fethodolegol y ffynonellau a amlinellir yn nhabl 3. Os bwriedir defnyddio unrhyw bapur ar gyfer polisi a/neu ymarfer, byddwch cystal â chynnal asesiad ansawdd ac ystyriwch a oes modd i'r canfyddiadau gael eu cyffredinolli i'ch cyd-destun chi.

Opsiynau ar gyfer gwaith pellach

Oherwydd swm prin yr ymchwil sydd wedi'i chyhoeddi ar ymyriadau cyffredinoliaeth gymesur, cyfyngedig yw'r cwmpas ar gyfer gwaith pellach ar y pwnc hwn.

Mae'n debygol iawn na wnaeth ein chwiliadau ni ddod o hyd i'r holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r pwnc hwn, gan ei bod yn bosibl nad yw ymyriadau sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur bob amser yn cyfeirio at y term ei hun. Er mwyn ymchwilio i hyn ymhellach, un opsiwn fyddai canolbwyntio chwiliadau am dystiolaeth ar ymyriad neu ganlyniad o ddiddordeb, megis gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd, i asesu a yw egwyddorion cyffredinoliaeth gymesur wedi'u cymhwyso ai peidio. Pe bai ymchwil o'r fath yn cael ei nodi, byddai'n bosibl asesu effeithiolrwydd ymyriadau sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur mewn pwnc penodol.

Er nad yw'n ffocws sydd o ddiddordeb rhanddeiliaid, un opsiwn arall fyddai archwilio'r dystiolaeth ar wasanaethau plant a theuluoedd, gan fod ein chwiliad ni wedi nodi rhywfaint o ymchwil gyhoeddus a oedd fel petai'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd ymyriadau a oedd yn cymhwyso cyffredinoliaeth gymesur yn y grŵp poblogaeth hwn. Ar sail ein chwiliad ni, cyfyngedig yw'r dystiolaeth hon hefyd, ond fe ellid archwilio hyn drwy chwiliad mwy cadarn a phenodol o'r dystiolaeth os yw hynny o ddiddordeb i'r rhanddeiliad.

Dulliau

Mae Atodiad A (atodiad technegol) yn rhoi amlinelliad o'r rhesymeg gyffredinol a'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu adolygiadau cwmpasu ystwyth. Mae'r fethodoleg ganlynol yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad cwmpasu ystwyth hwn.

Bwriad cychwynnol yr adolygiad cwmpasu ystwyth hwn oedd cynnwys ymchwil eilaidd yn unig sy'n defnyddio dulliau penodol ac atgynrchadwy o chwilio systematig, gwerthusiad beirniadol o ansawdd a synthesis o'r llenyddiaeth sylfaenol ar y pwnc. Yn



ychwanegol, cafodd astudiaethau sylfaenol eu hepgor gan y byddai cynnwys ffynonellau tystiolaeth sylfaenol ac eilaidd ar bwnc mor eang wedi gwneud yr adroddiad hwn yn anhydrin o fewn amserlen yr ymchwil hwn. Er hynny, oherwydd prinder y dystiolaeth a nodwyd, cafodd un adolygiad cwmpasu a thair astudiaeth sylfaenol eu cynnwys a'u trafod yng nghanfyddiadau'r adroddiad hwn.

Ffynonellau data: Chwiliwyd pymtheg o ffynonellau tystiolaeth dibynadwy sy'n glynu at egwyddorion adolygu systematig cadarn¹. Yn ychwanegol, chwiliwyd Medline am dystiolaeth gyhoeddedig gan ddefnyddio dau ddull. Yn gyntaf, cynhaliwyd chwiliad manwl gan ddefnyddio'r maes chwilio teitl-crynodeb gan ddefnyddio'r termau chwilio canlynol:

- Proportion* universal*
- Target* universal*
- Progress* universal

Yn ail, cynhaliwyd chwiliad sylfaenol am "proportionate universalism", yn gyfyngedig i erthyglau â sgôr 5 seren yn Medline. Chwiliwyd Google Scholar hefyd gan ddefnyddio'r term "proportionate universalism", ac allforiwyd y 3 thudalen cyntaf (30 o erthyglau). Ni roddwyd unrhyw derfynau dyddiad ar unrhyw un o'r chwiliadau.

Mae rhestr lawn o'r adnoddau a chwiliwyd, ynghyd â'r strategaethau perthynol, wedi'i chynnwys yn atodiad B (tabl 2).

Yn ychwanegol at y chwiliadau mewn ffynonellau tystiolaeth eilaidd cadarn, Medline a Google Scholar, cafodd Adolygiad Marmot (2020), Adolygiad Marmot 10 Mlynedd Wedyn (2020), ac adroddiadau dinas Marmot o Coventry a Manceinion eu sgrinio hefyd ar gyfer unrhyw erthyglau perthnasol.

Dethol astudiaethau: Cafodd yr holl erthyglau a nodwyd mewn unrhyw ffynonellau eilaidd cadarn, Medline neu Google Scholar eu hallforio i EndNote. Sgriniodd un adolygydd yr erthyglau yn annibynnol o ran perthnasedd ar lefel y teitl, y crynodeb a'r testun llawn o'u cymharu â'r meini prawf ar gyfer cynnwys astudiaethau a amlinellir yn nhabl 1.

Echdynnu data: Cafodd data o'r astudiaethau ymchwil eilaidd a sylfaenol a nodwyd yn y chwiliad ei dynnu a'i drafod yn adran Canfyddiadau'r adroddiad hwn. Darperir cyfeiriad llawn a hyperddolen ar gyfer pob astudiaeth, ac mae eu nodau a'u crynodebau priodol wedi'u tynnu. Dangosir gwybodaeth am echdynnu data yn nhabl 3.

Asesiad ansawdd: Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ansawdd.

¹ Yn dilyn egwyddorion adolygu systematig craidd: strategaeth chwilio gynhwysfawr a datganedig, detholiad o ffynonellau yn seiliedig ar feini prawf gwrthrychol, asesiad o risg o duedd ffynonellau sylfaenol a/neu yn fethodoleg a ddatblygwyd gan gorff arbenigol e.e. NICE. I gael rhestr lawn o'r ffynonellau a chwiliwyd, gweler yr adran Ffynonellau a chwiliwyd yn yr adroddiad.



Tabl 1: Meini Prawf Cynnwys:

Y cwestiwn adolygu

Sut a ble mae cyffredinoliaeth gymesur wedi'i chymhwyso, a beth yw effeithiolrwydd ymyriadau cyffredinoliaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion?

Cyfranogwyr	Oedolion yn y boblogaeth gyffredinol (ac eithrio astudiaethau sy'n edrych ar boblogaethau o famau neu blant yn unig)
--------------------	--

Ymyriad / amlygiad	Ymyriadau iechyd cyhoeddus sy'n cymhwyso egwyddor cyffredinoliaeth gymesur (yn gyffredinol ond y dwyster yn cael ei raddio yn ôl yr anghenion)
---------------------------	--

Canlyniadau	Canlyniadau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd a newid ymddygiad
--------------------	--

Math o ymchwil	Adolygiadau a gynhyrchwyd drwy ddefnyddio methodoleg systematig (gan gynnwys gwerthuso beirniadol) h.y. adolygiadau systematig, adolygiadau cwmpasu, adolygiadau cyflym etc.
-----------------------	--

Gwlad	Pob gwlad
--------------	-----------

Ystyriaethau Eraill yr Astudiaeth

Saesneg yn unig



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystwyth
Agile scoping report

Cyfeiriadau

Benach, J., Malmusi, D., Yasui, Y. et al. (2012). A new typology of policies to tackle health inequalities and scenarios of impact based on Rose's population approach. *J Epidemiol Community Health*. 67:286–291. doi:10.1136/jech-2011-200363.

Marmot, M., Goldblatt, P., Allen, J. et al. *Fair Society, Healthy Lives Adolygiad Marmot*. (2010). Ar gael: [Fair Society Healthy Lives \(The Marmot Review\) - IHE \(instituteofhealthequity.org\)](https://www.instituteofhealthequity.org/publications/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review).

Marmot, M., Allen, J., Boyce, T., Goldblatt, P. a Morrison, J. (202). Health Equity in England, the Marmot Review 10 Years On. Ar gael: [the-marmot-review-10-years-on-full-report.pdf \(instituteofhealthequity.org\)](https://www.instituteofhealthequity.org/publications/the-marmot-review-10-years-on).



Atodiad A: Dogfen dechnegol

MAE ADOLYGIADAU CWMPASU ystwyth yn drosolygon systematig a chyflym o'r dystiolaeth ar bwnc sy'n cael eu gyrru gan y rhanddeiliaid. Maent yn darparu trosolwg tryloyw a dibynadwy o'r dirwedd dystiolaeth ac maent yn ddefnyddiol er mwyn:

- sefydlu pa lenyddiaeth sy'n bodoli
- helpu i fireinio cwestiwn eang
- nodi bylchau yn y dystiolaeth
- llywio gwaith pellach gan y rhanddeiliaid.

Mae'r adolygiadau cwmpasu'n defnyddio proses o *hyd at dri* cham, gan ddibynnu ar ba dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y pwnc. Mae symud ymlaen o'r naill gam i'r llall yn cael ei drafod a'i gytuno gyda'r rhanddeiliaid.

1. Y cam cyntaf yw tynnu ar dystiolaeth adolygiadau systematig bresennol sydd wedi'u nodi mewn ffynonellau dibynadwy² (ffynonellau tystiolaeth eilaidd sy'n defnyddio methodolegau cadarn) lle mae hyn yn bodoli. Nid yw'r Gwasanaeth Tystiolaeth yn cynnal gwerthusiad beirniadol o'r adolygiadau hyn.
2. Pan nad oes fawr ddim tystiolaeth eilaidd y gallir ymddiried ynddi, os oes tystiolaeth o'r fath o gwbl, gall yr adolygiad symud ymlaen i'r ail gam lle mae chwiliad am adolygiadau systematig yn cael ei ymestyn i gynnwys Google Scholar a Medline. Ar y cam hwn ac unrhyw gam dilynol, byddai'r gwaith yn cynnwys asesiad o ansawdd y dystiolaeth.
3. Nid yw astudiaethau sylfaenol yn cael eu cynnwys, oni bai nad oes fawr ddim adolygiadau systematig neu ddim un adolygiad systematig, yn cael eu nodi, neu fod y rhanddeiliaid yn gofyn am hynny yn sgil gwaith cynharach y maen nhw wedi'i wneud. Chwilio am astudiaethau sylfaenol fyddai'r trydydd cam yn yr adolygiad cwmpasu.

Ystyriaethau

- Nid yw'r cwmpas yn ceisio nodi'r holl dystiolaeth ar bwnc penodol.
- Ni fydd pob canlyniad a nodir yn y llenyddiaeth o reidrwydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad cwmpasu hwn am nifer o resymau, gan gynnwys:
 - Mae'r canlyniadau a gynhwysir yn y cwmpas wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n berthnasol i gwestiwn gwreiddiol y rhanddeiliaid.

² Darperir y ffynonellau ar restr y Gwasanaeth Tystiolaeth o'r adnoddau tystiolaeth eilaidd y gallir ymddiried ynddynt yn Nhabl 1



- Mae'n bosibl nad yw canlyniadau wedi'u hadrodd yn y ffynonellau eilaidd, er y gallen nhw fodoli yn y llenyddiaeth sylfaenol. Gan hynny, fydd y canlyniadau hyn ddim yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad cwmpasu.
- Nid yw canfyddiadau mewn adolygiadau sydd wedi'u cynnwys yn cael eu hasesu i weld a oes modd eu cyffredinoli yn y cyd-destun Cymreig. *[Byddai hynny'n broses gymhleth gan fod tystiolaeth eilaidd yn debygol o gynnwys astudiaethau o nifer o wledydd.]* Byddai angen i'r rhanddeiliaid ystyried hyn os ydyn nhw'n defnyddio tystiolaeth eilaidd i lywio polisi ac arferion. Gellid gofyn am waith ychwanegol os oes ei angen.
- Mae'r cwmpas yn crynhoi canfyddiadau a chasgliadau awduron y ffynonellau. Os oes elfen benodol o'r adroddiad o ddiddordeb arbennig, mae'n ddoeth darllen y ffynhonnell/ffynonellau y mae'n tarddu ohonynt nhw yn fanylach, gan y bydd hyn yn rhoi mwy o gyd-destun. Gellir gwneud gwaith pellach ar feysydd penodol os oes ei angen.
- Darperir hyperddolenni i'r dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn y tabl crynhoi data. Mewn llawer o achosion, mae'r dystiolaeth honno ar gael am ddim. Os nad yw, gall gwasanaeth Gwybodaeth a Llyfrgell eich Ymddiriedolaeth helpu. [Gwasanaeth Llyfrgell GIG Cymru](#)

Dulliau

Mae pob adolygiad cwmpasu ystwyth yn dilyn methodoleg a strwythur eang, gydag amrywiadau bach yn unig yn ôl y cwestiwn a'r sylfaen dystiolaeth a nodwyd. Trwy drafod gyda'r rhanddeiliaid, datblygir cwestiwn ymchwil a meini prawf cynnwys/hepgor gan ddefnyddio fformat PICO/PECO (poblogaeth, ymyriad/amlygiad, cymharydd, canlyniad). **Sylwch: gofynnir i'r rhanddeiliaid nodi tystiolaeth/gwybodaeth y maen nhw eisoes wedi'u nodi.**

Fel y nodwyd uchod, mae'r fethodoleg a ddefnyddir wedi'i chynllunio i ddarparu gwybodaeth gyflym i'r rhanddeiliaid. Yn y cam cyntaf, mae cyfyngu'r chwiliad i ffynonellau o'r rhestr adnoddau tystiolaeth eilaidd yr ymddiriedir ynddynt yn lleihau'r amser a gymerir o ran cwmpas y chwiliad a thrwy hepgor yr angen am werthusiad beirniadol.

Mae'r strategaeth chwilio a ddatblygwyd wedi'i seilio ar y meini prawf cynnwys ac yn defnyddio geiriau allweddol. Ar gyfer camau dau a thri, mae'r cwmpas wedi'i gyfyngu i dystiolaeth Saesneg ei hiaith ac mae modd gosod terfynau o ran y dyddiad cyhoeddi pan fydd canlyniadau'r chwiliad yn rhy fawr i'w rheoli mewn cyfnod byr, neu pan fo'r pwnc yn gofyn am amserlen benodol. Yn ychwanegol, gall y gwledydd a gynhwysir gael eu cyfyngu yng ngham tri, yn enwedig lle mae cyffredinoli i gyd-destun Cymru yn bryder arbennig.



Cedwir yr holl ganlyniadau chwilio a sgrinio ar gyfer adolygiadau systematig perthnasol mewn llyfrgell EndNote neu mewn system addas ar gyfer rheoli cyfeiriadau. Mae'r penderfyniad i gynnwys deunyddiau ar lefel y teitl a'r crynodeb yn cael ei bwyso a'i fesur gan ddau adolygydd sy'n sgrinio'n annibynnol y 10% i 20% cyntaf o'r adolygiadau systematig ar gyfer perthnasedd, gyda'r gweddill yn cael eu sgrinio gan un adolygydd. Mae penderfyniadau sgrinio'r testun llawn yn cael eu gwneud gan ddau adolygydd. Mae data ar nodweddion yr astudiaethau a'r canfyddiadau sy'n berthnasol i'r cwestiwn yn cael eu tynnu gan un adolygydd a'u gwirio gan ail adolygydd. Wedyn mae'r dystiolaeth yn cael ei chrynhofi ar ffurf naratif i ateb cwestiynau'r rhanddeiliaid. Mae adroddiad yn cael ei gyflwyno ar fylchau yn y dystiolaeth yn y llenyddiaeth eilaidd.

Canfyddiadau

Mae'r adroddiad cwmpasu ystwyth yn cynnwys crynodeb naratif a thabl data. Mae'r crynodeb naratif yn drosolwg bras o'r dystiolaeth a nodwyd, gyda ffocws penodol ar elfennau a amlygwyd fel rhai pwysig gan y rhanddeiliaid. Mae'r tablau data yn cynnwys y cyfeiriad (gyda hyperddolen), gwybodaeth am nodweddion a chanfyddiadau'r astudiaeth. Bydd yr wybodaeth yn y tablau data yn amrywio yn ôl y cwestiwn, y mathau o astudiaethau sydd wedi'u cynnwys a gofynion y rhanddeiliaid. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys adran sylwadau sy'n amlygu unrhyw elfennau o ddiddordeb arbennig i'r rhanddeiliaid ynghyd ag unrhyw gyfyngiadau y dylid eu hystyried.

Mae'r adroddiad yn cloi gydag adran 'opsiynau ar gyfer gwaith pellach'. Mae'r awgrymiadau hyn wedi'u seilio ar y dystiolaeth a nodwyd ac yn rhoi sail resymegol benodol lle argymhellir gwaith pellach i adolygu'r dystiolaeth.



Atodiad B: Atodiad Chwiliadau

Tabl 2: Yr adnoddau a chwiliwyd	
Ffynonellau Craidd (heb fod yn ddewisol)	
Cronfa ddata Cochrane o adolygiadau systematig - https://www.cochranelibrary.com/cdsr/reviews <i>Adolygiadau systematig ar ymyriadau gofal iechyd, diagnosteg ac ymyriadau iechyd cyhoeddus.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau a chwiliwyd: "Proportionate universalism" Canlyniadau (Pob Testun): 1, 0 yn berthnasol Canlyniadau (ti,ab, allwedd): 0
NICE – https://www.nice.org.uk/guidance <i>Canllawiau ar bynciau gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd. Noder: dylech fod yn chwilio am adolygiadau tystiolaeth systematig a allai fod yn sail i ganllawiau ar eich pwnc, nid y canllawiau eu hunain. Nid yw pob argymhelliad wedi'i seilio ar adolygiadau tystiolaeth.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: Cafwyd 3 chanllaw gan NICE, PH49 ac NG214, edrychwyd drwy dystiolaeth o'r ddau a dim byd perthnasol (methu â chychu ffeil pdf o'r adolygiadau tystiolaeth o PH49)
Sefydliad Joanna Briggs - https://journals.lww.com/jbisrir/pages/advancedsearch.aspx	Dyddiad: 17/03/2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystwyth
Agile scoping report

Mae cyfnodolyn y sefydliad hwn, JBI Evidence Synthesis, yn cynnwys adolygiadau systematig ac adolygiadau cwmpasu o dystiolaeth feintiol ac ansoddol ar bynciau gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd.	Termau: proportionate universalism (yn y teitl neu'r crynodeb)
Chwiliwch drwy ddefnyddio'ch geiriau allweddol A "systematic review" Prospero - https://www.crd.york.ac.uk/prospetro/	Canlyniadau: 0 Dyddiad: 17/03/2023
Gwiriwch y gronfa ddata hon o brotocolau adolygu systematig bob amser i weld a oes adolygiad systematig cyfredol ar y gweill ynglŷn â'ch cwestiwn chi. Dim ond y protocolau mwyaf diweddar (y ddwy flynedd diwethaf) y bydd angen ichi eu hystyried gan y dylai protocolau cynharach fod wedi'u cyhoeddi a byddant i'w cael mewn ffynonellau eraill.	Termau: proportionate universalism (unrhyw faes) Canlyniadau: 2, 1 yn berthnasol
Ffocws Iechyd y Cyhoedd / Penderfynyddion Ehangach [dewiswch os yw'n berthnasol i'ch cwestiwn]	
Y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR) Ymchwil Iechyd y Cyhoedd – https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/phr/about-the-phr-journal.htm Mae rhai adroddiadau yn y cyfnodolyn hwn yn adolygiadau systematig o ymyriadau i wella iechyd y cyhoedd.	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
Canolfan Gwybodaeth a Chydgysylltu Tystiolaeth ar gyfer Polisi ac Ymarfer (Canolfan EPPI) – http://epi.ioe.ac.uk/cms/ Gwiriwch y rhestr cyhoeddiadau ar gyfer adolygiadau systematig ym meysydd addysg, hybu iechyd ac iechyd y cyhoedd, yn ogystal â lles cymdeithasol a datblygu rhyngwladol.	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: ctr+f proportionate universalism ar y rhestr gronolegol o'r holl adolygiadau systematig a gyhoeddwyd Canlyniadau: 0
Adolygiadau systematig Cydweithredfa Campbell - https://www.campbellcollaboration.org/better-evidence.html Adolygiadau systematig o effeithiau ymyriadau cymdeithasol mewn Troseddau a Chyfiawnder, Addysg, Datblygu Rhyngwladol, a Lles Cymdeithasol.	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
Y Coleg Plismona: Canolfan Beth Sy'n Gweithio ar gyfer Lleihau Troseddau - https://www.college.police.uk/research/what-works-centre-crime-reduction Adolygiadau systematig ar leihau troseddau.	Heb ei chwilio, heb fod yn berthnasol
Canolfan Llesiant yr Hyn sy'n Gweithio – https://whatworkswellbeing.org/about-us/ Adolygiadau systematig o effeithiau polisïau a phrosiectau ar lesiant.	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
	Sgriniwyd hefyd y 60 adroddiad llawn yn yr archif adnoddau, 1 yn berthnasol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystywyth
Agile scoping report

Yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant - https://whatworks-csc.org.uk/ <i>Adolygiadau systematig sy'n berthnasol i ofal cymdeithasol plant.</i>	Heb ei chwilio, heb fod yn berthnasol
Tŷ Clirio'r Hyn sy'n Gweithio (UDA) – https://ies.ed.gov/ncee/wwc/ <i>Adolygiadau systematig o'r hyn sy'n gweithio ym myd addysg.</i>	Heb ei chwilio, heb fod yn berthnasol
Sefydliad Ymyriadau Cynnar (EIF) - https://www.eif.org.uk/about <i>Adolygiadau systematig o ymyriadau cynnar ar gyfer mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau cymdeithasol plant a phobl ifanc.</i>	Heb ei chwilio, heb fod yn berthnasol
Canolfan yr Hyn sy'n Gweithio ar gyfer Twf Economaidd Lleol – https://whatworksgrowth.org/about-us/ <i>Adolygiadau systematig o bolisïau ar gyfer twf economaidd lleol.</i>	Heb ei chwilio, heb fod yn berthnasol
Ymyriadau a Thechnolegau Gofal Iechyd	
Technoleg Iechyd Cymru – https://healthtechnology.wales/?lang=cy <i>Adroddiadau a chanllawiau ar ddefnyddio dyfeisiau meddygol, gweithdrefnau llawfeddygol, therapïau seicolegol, tele-fonitro neu adsefydlu.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
Asesiadau Technoleg Iechyd (Iwerddon) - https://www.higa.ie/areas-work/health-technology-assessment <i>Asesiadau technoleg iechyd ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd cyffuriau, offer, technegau diagnostig a gweithgareddau iechyd y cyhoedd.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
Cyfnodolyn Asesu Technoleg (HTA) y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd (NIHR) – https://www.journalslibrary.nihr.ac.uk/hta/about-the-hta-journal.htm <i>Mae rhai adroddiadau yn y cyfnodolyn hwn yn adolygiadau systematig o ymyriadau i atal a thrin clefydau a gwella adsefydlu a gofal hirdymor.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 1, gallai 1 teitl fod yn berthnasol
Yr Asiantaeth ar gyfer Ymchwil ac Ansawdd Gofal Iechyd (AHRQ) Chwiliwch Evidence-Based Reports Agency for Healthcare Research and Quality (ahrq.gov) <i>Adolygiadau o effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd cymharol mewn ymyriadau gofal iechyd.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism Canlyniadau: 0
Asiantaeth Cyffuriau a Thechnolegau Canada (CADTH) - https://www.cadth.ca/evidence-bundles-view <i>Adolygiadau systematig ymateb cyflym a meta-ddadansoddiadau o dechnolegau iechyd, gan gynnwys profion cyffuriau a phroffion diagnostig, dyfeisiau a gweithdrefnau meddygol, deintyddol a llawfeddygol.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: proportionate universalism, wedi'i gyfyngu yn ôl y llinell prosiect i HTA, ac is-linell, crynodeb gyda gwerthusiad beirniadol



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystywyth
Agile scoping report

	Canlyniadau: 3, dim un yn berthnasol
Adroddiadau Rhaglen Synthesis Tystiolaeth (va.gov) – https://www.hsrd.research.va.gov/publications/esp/reports.cfm <i>Cyfuniadau tystiolaeth ynghylch ymyriadau gofal iechyd sy'n arbennig o berthnasol i gyn-filwyr.</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: ctr+f proportionate universalism Canlyniadau: 0
Canllawiau clinigol Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban (SIGN) – https://www.sign.ac.uk/our-guidelines/ <i>Canllawiau ymarfer clinigol. Noder: dylech fod yn chwilio am adolygiadau tystiolaeth systematig a allai fod yn sail i ganllawiau ar eich pwnc, nid y canllawiau eu hunain. Nid yw pob canllaw wedi'i seilio ar adolygiadau tystiolaeth</i>	Dyddiad: 17/03/2023 Termau: ctr+f proportionate universalism Wedi sgrinio pob teitl hefyd, dim byd yn amlwg yn ymwneud â chyffredinolïaeth gymesur Canlyniadau: 0
Google Scholar – https://scholar.google.com/ <i>Chwiliwch drwy ddefnyddio'ch geiriau allweddol A "systematic review"</i>	"proportionate universalism" 30 cyntaf
Medline - https://www.scopus.com/search/form.uri?display=basic#basic <i>Chwiliwch drwy ddefnyddio'ch geiriau allweddol A [Systematic Review]</i>	("proportion* universal*" or "target* universal*" or "progress* universal*").ab,ti. 177 o ganlyniadau Chwiliad ychwanegol: chwiliad sylfaenol "proportionate universalism", wedi'i gyfyngu i radd 5 seren 67



Atodiad C: Echdynnu data

Tabl 3: Echdynnu data o'r adolygiadau a nodwyd yn y chwiliad cwmpasu (yn nhrefn yr wyddor)

Ymchwil Eilaidd			
Cyfeiriad	Nod/Cwestiwn	Crynodeb	Sylwadau
Francis-Oliviero, F.D., Cambon, L., Wittwer, J. et al. (2020). Theoretical and practical challenges of proportionate universalism: a review . <i>Rev Panam Salud Publica</i> . 44, 2020. doi.org/10.26633/RP.SP.2020.110.	Dau amcan penodol yr adolygiad cwmpasu oedd: (1) disgrifio'r cyd-destun damcaniaethol y sefydlwyd PU ynddo, (2) disgrifio sut mae ymchwilwyr yn cymhwyso PU a materion methodolegol cysylltiedig.	Amcan. Yn 2010, cynigiwyd egwyddor cyffredinolïaeth gymesur (PU) fel ateb i leihau anghydraddoldebau iechyd. Llwyddodd i daro tant ond nid yw'n ymddangos iddo gael ei gymhwyso'n eang a does dim canllawiau ar sut i'w weithredu. Dulliau. Chwiliwyd am yr holl erthyglau a gyhoeddwyd tan 6 Chwefror 2020, gan grybwyll "Proportionate Universalism" neu ei gyfystyron "Targeted universalism" NEU "Progressive Universalism" fel pwnc yn holl gronfeydd data y Web of Science. Canlyniadau. Caniataodd yr adolygiad hwn o 55 o erthyglau inni gael golwg gyffredinol ar gwestiwn PU o safbwynt ei sylfeini damcaniaethol a'i roi ar waith yn ymarferol. Mae egwyddor PU wedi'i gwreiddio yn namcaniaethau cymdeithasol cyffredinolïaeth a tharged. Cynigir cysylltu'r ddwy agwedd hyn er mwyn sicrhau gostyngiad effeithiol mewn anghydraddoldebau iechyd. O ran gweithredu ymarferol, roedd ymyriadau PU yn brin ac yn arwain at ddeongliadau gwahanol. Mae llawer o heriau methodolegol a moesegol o hyd o ran cychwyn a gwerthuso ymyriadau PU, gan gynnwys sut i gymhwyso cymesuredd, ac adnabod anghenion. Casgliad. Mapiodd yr adolygiad hwn y llenyddiaeth wyddonol sydd ar gael ar PU a'i gysyniadau perthynol. Mae egwyddor PU yn tarddu o ddamcaniaethau cymdeithasol. Fel yr amlygwyd gan awduron a roddodd ymyriadau PU ar waith, mae'r cymhwyso yn codi llawer o heriau o ddylunio i werthuso. Atebodd y dadansoddiad o gymwysiaid PIU a	Mae'r adolygiad cwmpasu hwn yn canolbwyntio ar heriau damcaniaethol ac ymarferol cyffredinolïaeth gymesur, nid ar effeithiolrwydd ymyriadau sydd wedi'i gymhwyso.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystywyth
Agile scoping report

		ddarparwyd yn yr adolygiad rai o'r rhain ond fe ellid mynd i'r afael â'r heriau methodolegol sy'n weddill mewn ymchwil bellach.	
Ymchwil sylfaenol			
Cyfeiriad	Nod/Cwestiwn	Crynodeb	Sylwadau
Candio, P., Meads, D., Hill, AJ et al. (2022a). Cost-effectiveness of a proportionate universal offer of free exercise: Leeds Let's Get Active . <i>Journal of Public Health</i> . Cyfrol 43, Rhifyn 4, Rhagfyr 2021, Tudalennau 876–886, https://doi.org/10.1093/pubmed/fdaa113	Asesu cost-efeithiolrwydd rhaglen gyffredinol gymesur i leihau anweithgarwch corfforol (Leeds Let us Get Active (LLGA)) mewn oedolion.	Dulliau Datblygwyd model cadwyn Markov amser di-dor i asesu'r goblygiadau cost a'r enillion QALY sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn lefelau gweithgaredd corfforol ar draws y boblogaeth oedolion. Defnyddiwyd dull dadansoddi goroesi parametrig i amcangyfrif dirywiad effaith yr ymyriad dros amser. Cafwyd data gwaelodlin y model o fodelau economaidd blaenorol, arolygon wedi'u seilio ar boblogaeth a llenyddiaeth gyhoeddedig arall. Cynhaliwyd dadansoddiad cost-ddefnyddioldeb o safbwynt y sector gofal iechyd dros gyfnod y rhaglen (39 mis). Cynhaliwyd dadansoddiadau o senarios a dadansoddiadau sensitifrwydd tebygolrwyddol er mwyn profi pa mor gadarn oedd y canlyniadau cost-efeithiolrwydd. Canlyniadau Cofrestrodd cyfanswm o 51 874 o drigolion mewn oed ar y rhaglen a darparu data sylfaenol, yr oedd 19.5% ohonyn nhw'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. O dan ragdybiaethau'r achos sylfaenol, canfuwyd bod LLGA yn debygol o fod yn gost-efeithiol. Er hynny, roedd amrywiadau mewn tybiaethau strwythurol allweddol yn dangos sensitifrwydd y canlyniadau. Casgliadau Mae canlyniadau'r astudiaeth hon yn awgrymu lefel ansicrwydd nad yw'n ddibwys ynghylch effeithiolrwydd, ac felly cost-efeithiolrwydd, cynnig cyffredinol o ymarfer corff am ddim mewn canolfannau hamdden sy'n targedu grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae angen casglu data pellach a symud tuag at werthusiadau arfaethedig.	Mae hwn yn asesiad cost-efeithiolrwydd o'r ymyriad yn yr astudiaeth a gynhaliwyd gan Candio et al (2022b), y tynnir data ohoni isod.
Candio, P., Meads, D., Hill, AJ et al. (2022b). Does providing everyone	Gwerthuso rhaglen gyffredinol gymesur sy'n darparu sesiynau ymarfer corff am ddim.	Dulliau: Defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol i grynhoi data am y rhaglen a'r cyfranogwyr. Edrychodd modelau amser i ddigwyddiad, cyfrifiad ac atchweliad logistaidd ar sut y bu'r gwahanol is-grwpiau poblogaeth yn ymwneud â'r rhaglen o ran nifer y cofrestriadau, cyfraddau cyfranogi wythnosol a phatrymau ymadael.	Disgrifiodd yr astudiaeth hon ei ymyriad fel cyffredinoliaeth gymesur; er hynny, dim ond yn yr 17 o



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystywyth
Agile scoping report

with free-of-charge organised exercise opportunities work in public health? Health Policy. 126, 129-142. https://doi.org/10.1016/j.healthpol.2022.01.001		Canlyniadau: Cofrestrodd 51,874 o drigolion mewn oed ar y rhaglen a darparu data sylfaenol (2013–2016). Mynychodd cyfran fach (1.6%) y sesiynau am ddim yn wythnosol. Amcangyfrifwyd bod yna gyfraddau cyfranogi uwch ar gyfer grŵp dynion, cyfranogwyr wedi ymddeol a chyfranogwyr anweithgar. Canfuwyd nad oedd statws amddifadedd ar lefel y gymdogaeth yn cael unrhyw effaith ymylol ar lefel ac amllder y cyfranogiad, ond ei fod yn gysylltiedig yn negyddol â gostyngiad yn y cyfranogiad (HR 0.93, 95% CI 0.89–0.97, p = 0.001). Casgliadau: Gall darparu cyfleoedd ymarfer corff trefnedig yn ddi-dâl i bawb mewn canolfannau hamdden cyhoeddus sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd difreintiedig ddenu niferoedd mawr o drigolion, ond efallai na fydd yn annog oedolion, yn enwedig trigolion anweithgar a'r rhai sy'n byw mewn cymdogaethau difreintiedig, i ymarfer corff yn gyson.	ardaloedd lleol difreintiedig yn ninas Leeds yr oedd yr ymyriad ar gael.
Egan, M., Kearns, A., Katikireddi, SV et al. (2016). Proportionate universalism in practice? A quasi-experimental study (GoWell) of a UK neighbourhood renewal programme's impact on health inequalities. <i>Social Science & Medicine</i>. 152, 41-49. http://dx.doi.org/10.1016/j.socsimed.2016.01.026	Ymchwilio i weld a ellid cadw at alwadau am 'gyffredinolrwydd cymesur' a ddarperid fel rhan o strategaeth penderfynyddion cymdeithasol iechyd o fewn adnewyddu trefol, gyda'r effeithiau dilynol ar anghydraddoldebau iechyd.	Mae argymhellion i leihau anghydraddoldebau iechyd yn aml yn pwysleisio gwelliannau i benderfynyddion sosio-amgylcheddol iechyd. Mae'r rhai sy'n cefnogi 'cyffredinolïaeth gymesur' yn dadlau y dylid dyrannu gwelliannau o'r fath yn gymesur ag angen y boblogaeth. Aethom ati i brofi a oedd buddsoddiad ledled y ddinas mewn adnewyddu trefol yn Glasgow (DU) wedi'i ddyrannu yn ô 'angen' ac a oedd hyn yn lleihau anghydraddoldebau iechyd. Adnabuwyd carfan hydredol (n= 1006) trwy gysylltu data ar draws arolygon a gynhaliwyd yn 2006 a 2011 mewn 14 o gymdogaethau difreintiedig. Cafodd pob cymdogaeth fuddsoddiad adnewyddu yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi'i ddyrannu ar sail yr angen am dai. Grwpwyd cymdogaethau yn rhai a gafodd buddsoddiad ar lefelau 'uwch', 'canolig' neu 'is'. Cymharwyd iechyd corfforol a meddyliol hunan-gofnodedig y trigolion rhwng y tri grŵp hyn dros amser gan ddefnyddio offeryn SF-12, fersiwn 2. Atchweliad llinol lluosog wedi'i addasu ar gyfer data gwaelodlin ar rywedd, oedran, addysg, strwythur aelwydydd, deiliadaeth tai, math o adeilad, gwlad enedigol a chlystyru. Roedd yr ardaloedd a gafodd y buddsoddiad uwch yn tueddu i fod dan yr anfantais fwyaf o ran gwaelodlinau iechyd, amddifadedd incwm a	Mae awduron yr astudiaeth hon yn dweud bod yr ymyriad wedi'i lywio gan gyffredinolïaeth gymesur ond nad oedd yn gyffredinolïaeth gwbl gymesur. Y rheswm am hyn yw bod lefel y cyllid adnewyddu cymdogaethau wedi'i graddio ar gyfer yr angen mewn ardaloedd difreintiedig yn unig, felly nid oedd yn rhaglen gyffredinol.



		marcwyr anfantais gymdeithasol. Ar ôl pum mlynedd, gwellodd y sgorau iechyd meddwl cymedrig yn yr ardaloedd 'buddsoddiad uwch' o'u cymharu â'r ardaloedd 'buddsoddiad is' ($b = 4.26$; 95%CI 0.29, 8.22; $P = 0.036$). Yn yr un modd, gostyngodd y sgorau iechyd corfforol cymedrig lai yn yr ardaloedd buddsoddiad uchel o'u cymharu â'r ardaloedd buddsoddiad is ($b = 3.86$; 95%CI 1.96, 5.76; $P < 0.001$). Doedd y gwelliannau cymharol ar gyfer ardaloedd buddsoddiad canolig (o'u cymharu â buddsoddiad is) yn ystadegol arwyddocaol. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod buddsoddiadau mewn adnewyddu ar sail tai wedi'i ddyrannu yn unol ag angen y boblogaeth a bod hyn wedi arwain at ostyngiadau bach mewn anghydraddoldebau iechyd ar sail ardal ar ôl pum mlynedd. Mae cyfyngiadau'r astudiaeth yn cynnwys risg o duedd wrth ddethol. Mae'r astudiaeth hon yn dangos sut y gellir, ac yn ein barn ni sut y dylid, gwerthuso ymyriadau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd er mwyn deall yn well a oes modd lleihau anghydraddoldebau iechyd a sut y gellir eu lleihau trwy strategaethau o ddyrannu buddsoddiadau mewn penderfyniadau cymdeithasol iechyd yn ôl yr angen.	
--	--	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gwasanaeth Tystiolaeth
Evidence Service
Adroddiad cwmpasu ystwyth
Agile scoping report

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Caniateir atgynhyrchu'r deunydd sydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded
Llywodraeth Agored (OGL)
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3/
ar yr amod bod hynny'n cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn
cyd-destun camarweiniol.
Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

ISBN: 978-1-83766-185-5